GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Penodi Cadeirydd

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

Ychwanegu gwerth trwy bartneriaeth, arloesi a rhagoriaeth

GIG CYMRU NHS WALES
Partneriaeth Cydwasanaethau
Shared Services Partnership

Cadeirydd – Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Annwyl Ymgeisydd,

Rydym yn falch iawn bod gennych ddiddordeb yn y rôl arweinyddiaeth genedlaethol ganolog a chyffrous hon o fewn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Mae hon yn adeg hynod gyffrous i Gadeirydd ysbrydoledig ymuno â ni. Mae ein gwasanaethau wedi tyfu'n sylweddol ac mae ansawdd ein darpariaeth wedi bod yn rhagorol yn ystod cyfnod mwyaf heriol ein hanes, ond nid ydym am i hyn ddod i ben nawr. Rydym yn cydnabod y gallwn ni wneud mwy – mwy i gefnogi ein cydweithwyr yn y Byrddau Iechyd, i gefnogi'r cymunedau a wasanaethwn, i wneud gwahaniaeth i bobl Cymru, i ychwanegu gwerth yn anad dim. Rydym am ychwanegu'r gwerth hwn drwy weithio mewn partneriaeth ac arloesi ar raddfa ac yn gyflym. Rydym felly'n chwilio am Gadeirydd a fydd yn ein harwain ar ein taith, a fydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar draws y sector a thu hwnt er mwyn paratoi'r ffordd i gyflawni datblygiadau cyffrous ac arwyddocaol ledled Cymru. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn arwain sefydliad sy'n cyflwyno datblygiadau cyffrous ledled Cymru.

Mae ein perthnasoedd yn allweddol bwysig i ni. Ein perthnasoedd â'r cyhoedd, partneriaid traws-sector cenedlaethol a rhyngwladol, llunwyr polisi, a gweinidogion traws-Lywodraethol. O ganlyniad, un o'r gofynion sylfaenol i fod yn llwyddiannus yn y rôl hon yw i feddu ar yr ymddygiadau manwl, y sgiliau rhyngbersonol a dylanwadol i greu a chynnal y synergeddau cydfuddiannol hyn a phartneriaethau cydweithredol er mwyn symbylu gweithredu ar y cyd a galluogi cyflawni Cymru iach a chynaliadwy.

Byddwch yn ymuno â sefydliad arloesol, agored ac uchelgeisiol gyda 3,500 o'r bobl fwyaf rhyfeddol a thalentog ar draws ein holl swyddogaethau ac mae ein gwerthoedd Gwrando a Dysgu, Arloesi, Cydweithio a Cymryd Cyfrifoldeb, yn hynod bwysig i ni. Gydag amgylchedd mor ffrwythlon a galluog, credwn, os gall unrhyw wlad drawsnewid iechyd ei chenedl ar gyflymder – yna Cymru yw honno. Mae hwn yn gyfnod hynod gyffrous i arweinydd strategol eithriadol ddod i'n cynorthwyo i newid cenedl.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cyfrannu at arwain y sefydliad cyffrous hwn, gan weithio gyda ni i barhau i ymgorffori ein dulliau arloesol er mwyn gwella iechyd y boblogaeth ar draws pob sector, mae croeso i chi gysylltu â ni i drafod y cyfle ymhellach. Mae rhagor o wybodaeth amdanom ni yn y pecyn atodedig.

Cofion cynnes

Neil Frow
Rheolwr Gyfarwyddwr

Gareth Hardacre
Cyfarwyddwr Pobl, Datblygu Sefydliadaol (OD) a Gwasanaethau Cyflogaeth

Cefndir a chyd-destun

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn sefydliad cydfuddiannol annibynnol, sy'n eiddo i GIG Cymru ac sy'n cael ei gyfarwyddo ganddo. Fe'i ffurfiwyd ar 1 Ebrill 2011 er mwyn darparu gwasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol rhagorol sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ar ran bob un o'r Byrddau Iechyd a'r Ymddiriedolaethau yn GIG Cymru.

Ychwanegu Gwerth trwy Bartneriaeth, Arloesi a Rhagoriaeth – mae PCGC yn darparu ystod eang o wasanaethau proffesiynol, technegol a gweinyddol o ansawdd uchel i GIG Cymru gan weithio gyda gwasanaethau cyhoeddus ehangach, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Rydym yn rhan annatod o deulu GIG Cymru; yn cefnogi staff a chleifion Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau ac Awdurdodau Iechyd Arbennig yng Nghymru. Rydym hefyd yn darparu ystod o wasanaethau i'r meddygfeydd, deintyddion, optegwyr a fferyllfeydd cymunedol.

Fel sefydliad a letyir, mae PCGC yn gweithredu o dan fframwaith cyfreithiol Ymddiriedolaeth GIG Felindre. Mae'r Rheolwr Gyfarwyddwr yn atebol i fyrddau iechyd ac ymddiriedolaethau drwy Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob sefydliad yn y GIG sy'n defnyddio ein gwasanaethau, yn ogystal â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru. Mae gennym nifer o Is-bwyllgorau a grwpiau ymynghorol hefyd, a daw aelodau'r rhain o blith ein partneriaid, rhanddeiliaid a'n defnyddwyr gwasanaethau.

Ein Gwasanaethau

Gweler isod y rhestr o'n portffolio gwasanaethau cyfredol:

- Archwilio a Sicrwydd
- Cyfrifon Taladwy
- GwrthDwyll Cymru
- Tîm Canolog e-Fusnes
- Datrysiadau Gweithlu Digidol
- Employment Services
- E-alluogi
- Yr Academi Gyllid (Wedi'i lletya)
- Y Gwasanaeth Negesydd Iechyd
- Cyfreithiol a Risg
- Gwasanaethau Golchdy
- Cyflogwr Arweiniol – Hyfforddedigion Meddygol, Deintyddol a Fferyllol (gan gynnwys meddygon teulu)
- Archwilydd Meddygol
- Gwasanaethau Contractwr Gofal Sylfaenol
- Caffael a Storfeydd
- Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
- Y Labordy Profi Deunyddiau Llawfeddygol
- Cynllun Aberthu Cyflog
- Cronfa Risg Cymru
- Cyflenwad Gwaed Heintiedig Cymreig

Rydym hefyd yn cefnogi'r rhwydwaith cyflenwi ar ôl Brexit o'n canolfan ddosbarthu yn IP5 yng Nghasnewydd – sydd hefyd yn gartref i'r Uned Meddygaeth Dros Dro yr ydym wedi'i hadeiladu i gefnogi ymateb GIG Cymru i Covid. Rydym yn cyflenwi chwistrelli wedi'u paratoi ymlaen llaw a weithgynhyrchir mewn amgylchedd ystafell lân a gymeradwywyd gan MRHA i Fyrddau Iechyd ledled Cymru, megis un o'r prif feysydd lle rydym wedi bod yn cefnogi ymdrechion Covid 19 GIG Cymru a hefyd wedi estyn cefnogaeth i'r sectorau Gofal Sylfaenol a Gofal Cymdeithasol.

Rydym hefyd wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Gweinidog Iechyd ar gyfer ein prosiect Trams cyffrous (a fydd yn ein gweld yn cynhyrchu meddyginiaethau mewn

amgylchedd rheoledig i gyflenwi Meddyginiaethau i GIG Cymru o hwb rhanbarthol wedi'i seilio ar fodel), a phrosiect Scan for Safety i gyflymu arloesedd ac olrhain ledled GIG Cymru. Dyma 2 fuddsoddiad sylweddol yn ein gwasanaethau i gyflawni ar agenda "unwaith i Gymru", gan adeiladu ar gefn y gwasanaethau presennol sydd eisoes gennym.

Ein pwyllgor

Mae Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau (SSPC) yn gyfrifol am arfer swyddogaethau Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru mewn perthynas â chydwasanaethau, gan gynnwys gosod polisi a strategaeth a rheoli a darparu cydwasanaethau i Fyrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Iechyd Arbennig.

Pwrpas SSPC yw:

- Gosod y polisi a'r strategaeth ar gyfer PCGC;
- Monitro darpariaeth y Cydwasanaethau, trwy Reolwr Gyfarwyddwr PCGC;
- Ceisio gwella'r modd y caiff y Cydwasanaethau eu darparu sy'n effeithiol, effeithlon ac sy'n darparu gwerth am arian i Bartneriaid;
- Sicrhau y caiff PCGC ei harwain a'i rheoli'n effeithiol; a
- Sicrhau bod ffocws cryf ar ddarparu arbedion y gellir eu hailfuddsoddi yn uniongyrchol mewn gofal cleifion.

Rôl SSPC yw:

- Ystyried cynlluniau ac amcanion sefydliadau GIG Cymru wrth ystyried strategaeth PCGC;
- Annog a chefnogi nodau ac amcanion PCGC;
- Nodi synergeddau rhwng pob un o'r Cydwasanaethau a sicrhau bod strategaethau'r dyfodol yn ymgorffori cyfleoedd synergaidd;
- Meithrin ac annog gweithio mewn partneriaeth rhwng yr holl randdeiliaid a staff allweddol;
- Goruchwylio nodi a rhannu buddion ariannol i sefydliadau GIG Cymru ar sail deg sy'n lleihau costau gweinyddol a threfniadau trafodion ariannol;
- Ceisio nodi cyfleoedd posibl ar gyfer cydweithredu pellach ar draws y sector cyhoeddus ehangach;
- Ystyried goblygiadau i Gydwasanaethau mewn perthynas ag unrhyw adolygiadau / adroddiadau a wneir gan archwilwyr mewnol, archwilwyr allanol, a rheoleiddwyr, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru; a
- Cheisio sicrwydd, trwy Reolwr Gyfarwyddwr PCGC, ar ddigonolrwydd a chadernid systemau, prosesau, gweithdrefnau a rheoli risg, materion staffio a bod risgiau a buddion yn cael eu rhannu ar sail deg mewn perthynas â Chydwasanaethau.

Cyfrifoldebau SSPC yw:

- Cynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig, gan gynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig cytbwys i'w gytuno gan y Pwyllgor, yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Tymor Canolig Integredig y Bwrdd Iechyd, yr Ymddiriedolaeth a'r Awdurdod Iechyd Arbennig;
- Cytuno, yn flynyddol, ar Gynlluniau Gwella Gwasanaeth (a baratoir gan Reolwr Gyfarwyddwr PCGC) i'w darparu gan wasanaethau;
- Bod yn atebol am ddatblygu a chytuno ar bolisïau a strategaethau mewn perthynas â Chydwasanaethau ac am fonitro perfformiad a chyflawni targedau y cytunwyd arnynt ar gyfer Cydwasanaethau trwy Reolwr Gyfarwyddwr PCGC;
- Arwain wrth oruchwylio defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau'r Cydwasanaethau;
- Meincnodi perfformiad Cydwasanaethau yn erbyn y gorau yn y dosbarth;
- Ystyried cyfleoedd cwmpas estynedig ar gyfer Cydwasanaethau;
- Monitro cydymffurfiad arfer gorau o fewn Cydwasanaethau ag arfer gorau a argymhellir gan GIG Cymru;
- Goruchwylio nodi a darparu cyfleoedd "buddsoddi i arbed";
- Archwilio modelau cyflenwi sefydliadol Cydwasanaethau yn y dyfodol ar draws y GIG a'r sector cyhoeddus ehangach; a
- Gwreiddio amcanion a blaenoriaethau strategol PCGC trwy gynnal ei fusnes a thrwy wneud hynny, a thrafod ei fusnes, rhaid sicrhau bod ystyriaeth ddigonol wedi'i rhoi i'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac wrth ddiwallu gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Gaffael Moesegol a'r Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.

Rhaid i SSPC sicrhau bod ei holl weithgareddau yn arfer y swyddogaethau hyn neu unrhyw swyddogaethau eraill y gellir eu rhoi iddo. Bydd pob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Arbennig, ynghlwm wrth benderfyniadau SSPC wrth arfer ei rolau. Os na all SSPC ddod i gytundeb unfrydol mewn perthynas â'r lefelau cyllido i'w darparu gan bob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Arbennig, yna bydd y mater hwn yn cael ei drosglwyddo i Lywodraeth Cymru i'w ddatrys yn y pen draw gan Weinidogion Cymru.

Er mwyn cyflawni ei swyddogaethau, bydd SSPC yn arwain ac yn craffu ar weithrediadau, swyddogaethau a gwneud penderfyniadau Uwch Dîm Rheoli PCGC (UDRh) a gyflawnir ar gyfarwyddyd SSPC.

Bydd SSPC yn gweithio gyda'i holl Bartneriaid a'i randdeiliaid er budd gorau ei boblogaeth ledled Cymru.

Y Cadeirydd – disgrifiad o'r rôl

Rhaid i Gadeirydd SSPC weithredu mewn modd cytbwys, gan sicrhau bod unrhyw farn a fynegir yn ddiduedd ac yn seiliedig ar fuddiannau gorau'r gwasanaeth iechyd ledled Cymru.

Mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am weithrediad effeithiol SSPC:

- Cadeirio cyfarfodydd SSPC;
- Sefydlu a sicrhau cydymffurfiad â'r safonau llywodraethu da a osodwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru, gan sicrhau bod holl fusnes SSPC yn cael ei gynnal yn unol â Rheolau Sefydlog SSPC hyn; a
- Datblygu perthnasoedd cadarnhaol a phroffesiynol ymhlith aelodaeth SSPC a rhwng SSPC a phob Bwrdd Iechyd, yr Ymddiriedolaeth a Bwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig.

Bydd y Cadeirydd yn gweithio mewn cytgord agos â Phrif Weithredwyr pob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth ac Awdurdod Iechyd Arbennig (neu eu cynrychiolwyr enwebedig) a, gyda chefnogaeth y Pennaeth Cyllid a Gwella Busnes, bydd yn sicrhau bod materion allweddol a phriodol yn cael eu trafod gan SSPC mewn modd amserol gyda'r holl wybodaeth a chyngor angenrheidiol ar gael i aelodau i lywio'r ddadl a'r penderfyniadau terfynol.

Mae'r Cadeirydd yn atebol i SSPC mewn perthynas â chyflawni'r swyddogaethau a arferir gan SSPC, a, thrwy Gadeirydd Felindre, fel y sefydliad lletya, am gynnal busnes yn unol â'r fframwaith llywodraethu a gweithredu diffiniedig.

Manyleb y person

Bydd y Cadeirydd yn arddangos y rhinweddau canlynol:

Gwybodaeth a phrofiad

- Profiad o arwain a datblygu sefydliad preifat, cyhoeddus neu drydydd sector llwyddiannus ar lefel uwch, gyda'r gallu i edrych ymlaen a darparu arweinyddiaeth strategol;
- Hanes profedig o adeiladu perthnasoedd hynod effeithiol gydag ystod o randdeiliaid; a
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r gwasanaeth iechyd, darpariaeth gwasanaethau arbenigol a/neu ddod o gefndir clinigol.

Rhinweddau personol a sgiliau

- Sgiliau rhyngbersonol, dylanwadu a negodi cryf. Eiriolwr a llysgennad effeithiol dros ganlyniadau iechyd gwell drwy bartneriaeth, arloesi a rhagoriaeth mewn gwasanaeth. Yn gredadwy gyda'r gallu i gael effaith;
- Cymhelliant a phenderfyniad, gyda'r gallu i feithrin gweledigaeth a datblygu strategaethau diffiniedig i ddilyn nodau tymor hir a thymor byr;
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, gyda'r gallu i fod yn glir ac yn gryno ac i hwyluso dealltwriaeth o faterion cymhleth tra'n dangos parch at farn eraill;
- Barn gadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol; a'r
- Gallu i fod yn annibynnol a gwydn.

Rhaid i ymgeiswyr hefyd arddangos:

- Dealltwriaeth glir ac ymrwymiad i faterion cydraddoldeb a herio arferion gwahaniaethol; a
- Dealltwriaeth glir ac ymrwymiad i 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus' Nolan.

Mae meddu ar sgiliau'r Gymraeg yn ddymunol Disgwylir i bob ymgeisydd arddangos empathi tuag at yr iaith a dangos arweinyddiaeth i gryfhau darpariaeth gwasanaeth dwyieithog o fewn y GIG yng Nghymru.

Bydd gofyn i ymgeiswyr ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad ehangu ar sut y mae nhw'n cwrdd â'r meini prawf uchod gan ddefnyddio enghreifftiau a thystiolaeth.

Tymor Penodi

Gwneir y penodiad gan Bwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau.

Hyd y Penodiad

Gellir penodi'r Cadeirydd am gyfnod o ddim mwy na phedair (4) blynedd, a chaiff y Cadeirydd sefyll am uchafswm o wyth (8) mlynedd.

Lleoliad y Penodiad

Er bod y swydd wedi'i lleoli yn ein Prif Swyddfa yn Nantgarw, mae hyblygrwydd sylweddol o ran trefniadau gweithio o bell. Darperir Cyfleusterau TG i gefnogi gweithio gartref.

Hawl i fanteisio ar y cynllun

Bydd person yn cael ei wahardd o'i benodiad os yw ef/hi:

- Wedi ei gael yn euog yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o fewn y 5 mlynedd flaenorol o unrhyw drosedd ac wedi derbyn dedfryd o garchar (p'un ai a gafodd ei atal neu beidio) am gyfnod o ddim llai na thri mis heb yr opsiwn o ddirwy;
- Yn destun gorchymyn cyfyngiadau methdaliad neu orchymyn dros dro neu wedi gwneud cyfansoddiad neu drefniant gyda chredydwyr;
- Wedi ei wahardd, ac eithrio oherwydd diswyddiad, o gyflogaeth â thâl gyda chorff gwasanaeth iechyd; a
- Bod ei aelodaeth fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr corff gwasanaeth iechyd wedi ei derfynu, ac eithrio oherwydd diswyddo, ymddiswyddiad gwirfoddol, ad-drefnu'r corff gwasanaeth iechyd, neu ddiwedd y cyfnod yn y swydd y penodwyd yr unigolyn hwnnw iddi.

Dylai unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio'n sylweddol ar eich cais am benodiad gael ei datgan ar y ffurflen gais o dan yr adran 'Gwrthdaro Buddiannau'.

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n gwybod sut i ymddwyn bob amser gan wneud hynny mewn modd a fydd yn cynnal hyder y cyhoedd.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddatgan a ydyn nhw'n ymwybodol o unrhyw beth yn eu bywyd preifat neu broffesiynol a fyddai'n embaras iddyn nhw eu hunain neu i Lywodraeth Cymru pe bai'n dod yn hysbys yn sgîl penodiad.

Ymrwymiad amser

Mae swydd y Cadeirydd yn seiliedig ar ymrwymiad amser o bedwar diwrnod y mis ac o 48 diwrnod y flwyddyn. Gallai hyn fod yn destun adolygiad.

Tâl

Mae gan y Cadeirydd yr hawl i dderbyn cydnabyddiaeth ariannol drethadwy o £15,840 y flwyddyn.

Treuliau

Bydd gennych hawl i gael ad-daliad, os yw'n briodol, yn erbyn derbynebau am gostau teithio a chynhaliaeth a gafwyd tra ar fusnes y Pwyllgor.

Gellir talu gofal plant a threuliau dibynnol eraill hefyd, wrth gyflwyno derbynebau, am gostau ychwanegol a gafwyd wrth ymgymryd â gwaith Pwyllgor.

Cymorth i aelodau anabl

Lle bo hynny'n briodol, bydd pob addasiad rhesymol yn cael ei wneud i alluogi aelodau i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol.

Mae PCGC yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, lle cydnabyddir bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gweithredu i fethu pobl sydd â nam neu gyflyrau iechyd neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i gael gwared ar rwystrau fel y gall yr holl staff berfformio ar eu gorau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd ("fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu unigolyn i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu cyfweld ag unrhyw un sy'n anabl a bod eu cais yn cwrdd â'r meini prawf gofynnol ar gyfer y swydd. Wrth 'isafswm meini prawf' rydym yn golygu bod yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth i ni yn eich cais sy'n dangos eich bod yn gyffredinol yn cwrdd â lefel cymhwysedd y rôl ac unrhyw gymwysterau sgiliau neu brofiad a ddiffinnir fel rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogaeth a datblygiad gyrfa pobl anabl. Os hoffech gyfweliad gwarantedig, cysylltwch â Gareth Hardacre trwy e-bost neu dros y ffôn 01443 864000 i roi gwybod iddynt.

Os oes gennych chi nam neu gyflwr iechyd, neu os ydych chi'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ac angen trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â Gareth Hardacre gweler uchod cyn gynted â phosibl a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Y broses ddethol

Er nad yw penodiadau i PCGC yn dod o fewn cylch gwaith y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus mae'r penodiadau hyn yn cael eu gwneud gan ddefnyddio proses sy'n ystyried Cod Ymarfer y Comisiynydd ar Benodiadau Gweinidogol i Gyrff Cyhoeddus fel arfer gorau.

Mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo ac integreiddio cyfle cyfartal i bob agwedd ar ei busnes gan gynnwys penodiadau i gyrff cyhoeddus. Mae ceisiadau'n cael eu croesawu a'u hannog gan bob grŵp ac rydym yn sicrhau nad oes unrhyw ymgeisydd cymwys am swydd gyhoeddus yn derbyn triniaeth lai ffafriol ar sail oedran, anabledd, rhywedd, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, neu feichiogrwydd a mamolaeth. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a bydd penodiadau'n cael eu gwneud yn ôl teilyngdod.

Y broses gyfweld:

Bydd proses recriwtio dau gam gan gynnwys Cyflwyniad gyda phanel Rhanddeiliaid ac yna cyfweliad panel ffurfiol. Bydd y prosesau hyn yn digwydd ar ddiwrnodau ar wahân

ac yn dibynnu ar amgylchiadau gellir eu cynnal yn rhithiol.
Dyddiad cychwyn

1 Hydref 2021

Gwybodaeth ac ymholiadau pellach

Am fwy o wybodaeth am y broses ymgeisio ac i wneud cais, cliciwch yma.

Gellir cyfeirio ymholiadau penodol at Gareth Hardacre, Cyfarwyddwr Pobl, OD a Gwasanaethau Cyflogaeth: gareth.hardacre2@wales.nhs.uk.

Cais

Dylid gwneud ceisiadau trwy lenwi'r ffurflen gais ar-lein.

Dyddiad cau

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 26 Gorffennaf 2021. Ni fydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.